# Snwcer stryd

Petaech chi'n gofyn i bobl ifanc beth yw eu hoff gêm nhw, mae'n siŵr y byddech chi'n cael amrywiaeth o atebion - rygbi (wrth gwrs!), pêl-droed, tennis, pêl foli, pêl-rwyd efallai. Tybed faint ohonyn nhw fyddai'n ateb "Snwcer"? Tybed fyddai unrhyw un yn dweud "snwcer stryd"? Annhebygol - gan fod y gêm yn eitha newydd ar hyn o bryd.

Mae'r gêm yma'n cyfuno dwy gêm a dweud y gwir. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae yna elfen o 'snwcer' ynddi hi ac mae'r system sgorio yn debyg iawn i snwcer traddodiadol. Rhaid taro peli o liwiau gwahanol er mwyn ennill pwyntiau.

Fodd bynnag, does dim angen cario bwrdd snwcer mawr, trwm allan i'r stryd er mwyn chwarae snwcer stryd a does dim angen gwisgo'n smart ychwaith, fel y chwaraewyr snwcer proffesiynol. Yn hytrach, mae'r gêm yn cael ei chwarae tu allan ar 'fwrdd' mawr fertigol - wedi ei beintio ar wal efallai. Mae'r bwrdd yn wyrdd, fel bwrdd snwcer arferol. Yn lle chwarae â nifer o beli bach, mae'r chwaraewr yn chwarae ag un bêl, maint pêl-droed. Sut mae symud y bêl? Nid drwy ei tharo â chiw, ond drwy ei chicio. Rhaid ei chicio at saeth goch sydd wedi ei pheintio ar y bwrdd. Yna, rhaid cicio'r bêl at beli sydd yr un lliw â'r peli arferol mewn gêm o snwcer - ond eu bod nhw wedi eu peintio ar y bwrdd snwcer.
Y nod, felly, yw cicio'r bêl er mwyn sgorio - yn union fel sgorio gôl mewn pêl-droed.

Cafodd snwcer stryd ei greu gan y cynllunydd a chyfarwyddwr y cwmni Playinnovation.co.uk, Marco Boi, ac mae'n siŵr y bydd yn arwain at fwy o bobl ifanc yn ymddiddori mewn snwcer. Yn ogystal â bod yn gêm sy'n llawn hwyl, mae'n rhoi cyfle i bobl ddod yn ffrindiau. Mewn gemau sydd wedi cael eu cynnal ar stadau tai mawr, er enghraifft, gwelwyd bod pobl ifanc oedd ddim yn adnabod ei gilydd cyn dechrau chwarae yn dod yn ffrindiau drwy gyfrwng y gêm. Mae'n gyfle da i ennill sgiliau pwysig bywyd hefyd, fel gweithio mewn tîm, heb sôn am fod yn gyfle da i ymarfer y sgil rhifedd wrth adio'r sgôr. Yn ogystal, mae'n gyfle gwych i unigolyn ennill hunan-barch.

Mae'n gêm y gall unrhyw un o unrhyw oed ei chwarae. Mae'n siŵr y bydd yn dod yn fwy poblogaidd yn y dyfodol.